Estyn

Chwefror 2023



# Dysgu digidol a dysgu ar-lein mewn colegau addysg bellach:

## mewnwelediadau hydref 2022

## Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r canfyddiadau o ymweliadau ymgysylltu arolygwyr cyswllt a galwadau a wnaed i golegau addysg bellach (AB) rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022 gyda ffocws ar ddysgu ar-lein a dysgu digidol. Mae’r adroddiad wedi’i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd ar-lein gydag uwch arweinwyr, arweinwyr canol, athrawon, arweinwyr digidol, a grwpiau bach o ddysgwyr. Y ffocws ar gyfer trafodaethau oedd dysgu ar-lein a dysgu digidol o ran graddau’r defnydd, datblygiadau diweddar, sicrhau ansawdd, dysgu proffesiynol, a gweithio mewn partneriaeth. Mae’r canfyddiadau o fewn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar y rhai yn ein hadroddiad Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol (Estyn, 2021).

Mae’r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

## Cynnwys


Graddau’r defnydd a datblygiadau diweddar .......... 1
Sicrhau ansawdd .......... 2
Dysgu proffesiynol .......... 3
Gweithio mewn partneriaeth .......... 3
Cwestiynau hunanfyfyrio i gynorthwyo colegau AB o ran datblygiadau dysgu ar-lein a dysgu digidol .......... 4

## Graddau'r defnydd a datblygiadau diweddar

Dros gyfnod, mae colegau AB naill ai wedi dychwelyd yn llawn i gyflwyno wyneb yn wyneb neu wedi dewis cadw swm bach iawn o gyflwyno ar-lein, lle bo'n briodol. Y rhesymeg ar gyfer symud yn ôl i gyflwyno wyneb yn wyneb yw ei fod yn well i athrawon a dysgwyr, fel ei gilydd. Lle mae dysgu o bell ar waith o hyd, mae hyn yn digwydd ar raglenni masnachol a phroffesiynol yn bennaf, a rhai cyrsiau lefel uwch lle mae dysgwyr a chyflogwyr yn gwerthfawrogi'r ymagwedd hyblyg hon. Mewn ychydig iawn o achosion, mae colegau'n cynnig cyrsiau mathemateg a Saesneg ar-lein hefyd.

Mae colegau yn elwa o hyd ar y buddsoddiad mewn offer a'r adnoddau a ddatblygwyd yn ystod y pandemig gyda chyrsiau yn defnyddio'r deunyddiau anghydamserol sydd bellach ar gael yn eang. Defnyddir yr adnoddau digidol hyn i gefnogi ac ymestyn cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth, i gynnig gweithgareddau estynedig a gwaith cartref, a galluogi ymagwedd wrthdro at ddysgu lle gall dysgwyr gael mynediad at adnoddau cyn gwersi i'w paratoi ar gyfer gweithgareddau a thrafodaethau yn y dosbarth. Yn yr un modd, caiff gwersi eu recordio weithiau er mwyn i ddysgwyr allu mynd yn ôl atynt neu fynd atynt yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, dywed staff fod yr ymagwedd hon wedi lleihau presenoldeb wyneb yn wyneb.

Mae'r ymagwedd hon at ddysgu digidol, sydd wedi ymwreiddio, yn ennill ei phlwyf ar draws y sector gydag arweinwyr a thimau cyflwyno yn cydnabod ble a sut mae'r ymagwedd hon o fudd i ddysgu gydag athrawon, ac yn ei gefnogi. Yn yr un modd, mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir gan ddysgu digidol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys:

- nodiadau llais yr athro i gyd-fynd ag adborth ysgrifenedig
- byrddau bwletin rhithwir
- offer ar y we ar gyfer gweithgareddau cydweithredol
- creu portffolios digidol
- podlediadau gan staff a dysgwyr
- defnyddio clustffonau realiti rhithwir fel offeryn dysgu neu fel ffordd o roi mewnwelediad i ymgeiswyr i fywyd coleg cyn cofrestru

Mae timau staff mewn colegau yn parhau i arbrofi â gwahanol blatfformau ac offer ac mae amrywiaeth ohonynt yn cael eu defnyddio ar draws y sector. Mewn ychydig o golegau, mae dysgwyr a staff yn defnyddio mwy nag un platfform er nad oedd rhesymeg glir bob amser o ran pryd caiff un ei ddefnyddio yn hytrach nag un arall.

Mewn lleiafrif o golegau, crëwyd rolau mentoriaid digidol i gefnogi datblygiad cynnwys a medrau digidol, ac mae timau'n gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn gallu elwa ar yr arbenigedd hwn. Mewn ychydig o golegau, ceir tîm canolog sy'n cynhyrchu adnoddau digidol o ansawdd uchel ar gyfer rhaglenni penodol.

## Sicrhau ansawdd

Eir i’r afael â sicrhau ansawdd ar gyfer dysgu ar-lein a dysgu digidol trwy fwy nag un llwybr, ac mae’n amrywio o un coleg i’r llall. Fodd bynnag, mae gan bob coleg raglen arsylwi ar waith, a chofnodir dysgu digidol o fewn hyn yn yr un ffordd ag agweddau eraill ar addysgu a dysgu. Lle mae dysgu o bell yn digwydd o hyd, caiff y dosbarthiadau hyn eu harsylwi o fewn y cylch arsylwi. Mewn un coleg, defnyddir gwahanol ffurf ar gyfer arsylwadau ar-lein gan eu bod wedi dweud nad oedd arsylwadau traddodiadol yn gweithio’n effeithiol; mae’r ffurfiau newydd hyn a grëwyd yn caniatáu ar gyfer ffocws ar reolaeth ystafell ddosbarth ac arferion moesgar ar-lein. O ran prosesau ansawdd sydd wedi’u hanelu’n benodol at arferion digidol, mewn ychydig o golegau, mae timau wedi cwblhau adolygiadau medrau digidol sy’n golygu bod gan bob un o’r athrawon o leiaf un pwynt gweithredu datblygiadol ar gyfer dysgu digidol, ac mewn un coleg, mae’n ofynnol i athrawon osod o leiaf un asesiad ar-lein bob tymor.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae colegau’n cydnabod nad oes yna ffyrdd systematig na mecanweithiau ffurfiol ar waith i sicrhau ansawdd dysgu digidol a dysgu ar-lein a dylunio e-ddysgu yn gyffredinol. O ganlyniad i hyn, mae adnoddau a thechnegau gryn dipyn yn wahanol yn dibynnu ar fedrau athrawon a thimau unigol. Fodd bynnag, ym mhob coleg, ceir ymwybyddiaeth o feysydd y cwricwlwm ac athrawon sy’n perfformio’n dda yn hyn o beth, ac yn yr un modd, y meysydd a’r unigolion hynny y mae angen iddynt ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae gan y rhan fwyaf o golegau dimau digidol neu unigolion i gynorthwyo â’r agwedd hon ar y cwricwlwm. Mae eu harlwy yn amrywio’n sylweddol, o dimau arbenigol sy’n gallu creu cynnwys, i fentoriaid digidol yn canolbwyntio ar y cwricwlwm y neilltuir amser iddynt ar gyfer y rôl hon, i gymorth mwy anffurfiol gan gymheiriaid. Mae uwch arweinwyr yn sensitif i’r gwahanol alluoedd a ffafriaethau, a hefyd yn cydnabod bod rhai o feysydd y cwricwlwm yn fwy addas i’r defnydd o adnoddau digidol a chyflwyno nag eraill. Mewn rhai achosion, mae unigolion a thimau mewn colegau wedi datblygu strategaethau dysgu digidol yn ogystal ag arweiniad a phrotocolau ar gyfer staff cyflwyno, ond mae hyn ar gamau gwahanol ar draws y sector.

Rhoddir cyfle i ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni ar-lein i lenwi arolygon llais y dysgwr yn yr un ffordd â’r rhai sy’n mynychu dosbarthiadau wyneb yn wyneb, ac mewn rhai achosion, cynhelir grwpiau ffocws o bell fel rhan o’r broses sicrhau ansawdd.

Dywedodd colegau fod y dull presennol yn gweithio’n dda ac mai’r bwriad at y dyfodol yw parhau i ddatblygu a defnyddio dysgu digidol ar raglenni lle bo’n briodol, a chynllunio ar gyfer cyrsiau ar-lein lle mae galw amdanynt, a’i fod yn diwallu anghenion dysgwyr.

## Dysgu proffesiynol

Mae'r pandemig wedi cael effaith gadarnhaol iawn o ran buddsoddi mewn offer digidol a datblygu medrau digidol athrawon, gan arwain at gynnwys gwell a chyfleoedd dysgu mwy amrywiol a hyblyg ar gyfer dysgwyr. Roedd uwch arweinwyr o fewn colegau wedi ymrwymo o hyd i'r agenda ddigidol, ac adlewyrchir hyn trwy'r fframweithiau digidol, archwiliadau medrau, cyfleoedd dysgu proffesiynol, buddsoddi mewn adnoddau, a chymorth parhaus.

Mae colegau wedi darparu, ac yn parhau i ddarparu, cyfleoedd dysgu ar gyfer staff trwy sawl llwybr, gan gynnwys:

- sicrhau bod ffocws digidol o fewn digwyddiadau hyfforddi colegau
- darparu cyfleoedd dysgu ar-lein y gall pobl fanteisio arnynt eu hunain, fel rhaglenni Microsoft Educator a Google 1 Educator
- sefydlu grwpiau prosiect dysgu cymheiriaid, sy'n cynnwys partneriaid allanol fel JISC
- penodi arweinwyr digidol / hyfforddwyr medrau i gynorthwyo athrawon â datblygu cynnwys a medrau
- gweithio gyda sefydliadau eraill ar draws y sector

Mae athrawon yn cydnabod ac yn siarad yn gadarnhaol am ddatblygiad eu medrau a'u gwerthfawrogiad o'r cymorth a'r arbenigedd y trefnwyd eu bod ar gael iddynt. Yn yr un modd, mae arweinwyr yn cydnabod bod awydd am ddatblygiad digidol ar draws y gweithlu o fewn timau cymorth cwricwlwm a busnes a gallant nodi'r effaith gadarnhaol y mae hyn yn ei chael ar addysgu, dysgu ac asesu, yn ogystal â gwasanaethau ehangach.

Eir i'r afael â datblygiad medrau digidol hefyd trwy adolygiadau ac arfarniadau perfformiad, gydag un coleg yn rhannu y bydd gan bob athro o leiaf un targed â chysylltiad digidol wedi'i gynnwys mewn adolygiadau ac arfarniadau yn y dyfodol.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae colegau wedi rhannu eu profiadau o ddysgu digidol, a'u gwybodaeth amdano, trwy rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol. Er enghraifft, gweithiodd pedwar coleg yn y de a'r gorllewin gyda'i gilydd i rannu hyfforddiant ar gyfer staff ar blatfformau dysgu cyffredin a ddefnyddir ar draws y colegau. Yn yr un modd, gweithiodd dau goleg yn y de a'r de ddwyrain gyda'i gilydd ar brosiect cydweithredol yn canolbwyntio ar gynllunio'r cwricwlwm a chyflwyno gwersi o fewn cyd-destun digidol. Mewn achosion eraill, mae colegau wedi gweithio gyda'i gilydd ar ddatblygiadau o fewn meysydd penodol y cwricwlwm. Er enghraifft, mae tri choleg yn y de wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ar gynnwys y cwricwlwm yn gysylltiedig â chyfradd curiad y galon a thechnoleg electrocardiogram (ECG) o fewn cyd-destun seicoleg.

Ceir mwy o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth yn ehangach, gan gynnwys un coleg yn cysylltu â phrifysgol i ddatblygu prosiect ymchwil weithredu, cysylltiadau â'r

heddlu i godi ymwybyddiaeth am ddiogelwch seiber, a gwaith gyda sefydliadau sy'n creu adnoddau cwricwlwm digidol ar gyfer y sector addysg bellach a medrau.

Mae colegau hefyd yn cydnabod manteision bod yn rhan o rwydwaith digidol Colegau Cymru ac effaith fframwaith Digidol 2030, [Digidol 2030: Fframwaith strategol ar gyfer dysgu ôl-16 digidol yng Nghymru](#) (Llywodraeth Cymru, 2019). Enghraifft arall o gydweithio yw cyfraniadau colegau at ddatblygu offer digidol ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu dwyieithog a ariennir trwy'r Gronfa Datblygiad Proffesiynol (y Gronfa Dysgu Proffesiynol bellach). Sefydlwyd Rhwydwaith Arweinwyr Digidol y sector i gefnogi cydweithio, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn nhymor yr hydref 2022. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer tymor y gwanwyn 2023.

Mae JISC[1] wedi bod â rôl ganolog hefyd o ran cefnogi datblygiadau digidol ar draws colegau. Amlygodd staff mewn colegau ddefnyddioldeb offeryn gwerthuso digidol ac arolwg mewnwelediad JISC. Dywedwyd bod gweithdai a sesiynau dysgu proffesiynol JISC hefyd yn brofiad cadarnhaol o ran cefnogi cyfeiriad strategol, a chyflwyno gweithredol. Fodd bynnag, cafwyd ymatebion cymysg o ran ansawdd adnoddau JISC, gyda rhai pobl yn dweud eu bod yn wych, ac eraill yn dweud nad ydynt yn gryf iawn. Soniwyd am Hwb hefyd, sef menter wedi'i harwain gan Lywodraeth Cymru gydag ardal ôl-16 ddynodedig y gall ymarferwyr gael mynediad at ddysgu proffesiynol ynddi, yn ogystal â rhannu arfer dda ac adnoddau, er mai ychydig iawn o adborth cadarnhaol a gafwyd, a mynegodd un darparwr rwystredigaeth am nad oedd yn gallu dod o hyd i adnoddau ar y platfform hwn.

## Cwestiynau hunanfyfyrio i gynorthwyo colegau AB o ran datblygiadau dysgu ar-lein a dysgu digidol

- A oes cynlluniau i rannu profiadau ac adnoddau ar draws y sector o ran dysgu digidol a dysgu ar-lein?
- I ba raddau ydym ni wedi ystyried pa ran ddylai dysgu digidol ei chwarae o fewn gwahanol feysydd dysgu ac ar draws y gwahanol fathau o ddarpariaeth dros y pum mlynedd nesaf? Beth fyddai'r gorau posibl a sut byddai hyn yn amrywio ar draws y coleg?
- A oes yna strategaeth ar waith i sicrhau bod offer digidol a ariannwyd trwy Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig yn gallu cael ei ddisodli a'i ddiweddaru, yn unol â'r angen? Yn yr un modd, a oes cyllid parhaus wedi cael ei nodi i alluogi parhad rolau digidol penodol ymhlith y gweithluoedd?
- Pan ddefnyddir mwy nag un platfform digidol, a oes rhesymeg glir dros hyn?
- O fewn prosesau ansawdd, a oes cynlluniau i weithredu ffyrdd o fesur defnydd, cynnwys, ac effeithiolrwydd digidol ym meysydd penodol y cwricwlwm?
- Beth yw'r bwriad o ran manteisio ar gymorth ac adnoddau trwy gyrff allanol fel JISC a Hwb?

[1] Mae JISC (www.jisc.ac.uk) yn darparu ystod ddefnyddiol o gyngor, arweiniad a hyfforddiant ar gyfer staff o ran technolegau ar-lein a'u defnydd ledled y Deyrnas Unedig. Mae cyllid grant blynyddol Llywodraeth Cymru i JISC yn galluogi darparwyr dysgu ôl-16 yng Nghymru i fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau, cymorth a hyfforddiant yn uniongyrchol gan JISC.

- Sut mae staff addysgu yn gwerthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn ymgysylltu â sesiynau ar-lein a sut maent yn gwirio i ba raddau y mae dysgwyr yn dysgu’n effeithiol yn ystod y sesiynau hyn?